

Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili
Hyd at 2035

# Cynllun Cyn Adneuo

(Y Strategaeth a Ffefrir)

Medi 2022

# Crynodeb Hawdd ei Ddarllen

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI



This document is available in Welsh, and
in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg,
ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

# Beth yw'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd?

Bydd Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2035 yn dyrannu tir i'w ddatblygu, yn dynodi ardaloedd i'w gwarchod, ac yn gweithredu fel man cychwyn ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio.



# Beth yw Proses yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd?



# Beth yw Strategaeth a Ffrir?

**Mae’r Strategaeth a Ffefrir yn ddogfen sy’n:**

- Yn nodi materion, heriau a chyfleoedd pwysig
- Datblygu gweledigaeth a chyfres o amcanion
- Gosod lefel y twf (tai a chyflogaeth) a dosbarthiad gofodol bras y twf hwnnw
- Gosod polisïau strategol

**Nid yw’n:**

- Dyrannu safleoedd i’w datblygu (ac eithrio, efallai, ‘safleoedd strategol’ mawr a phwysig)
- Nodi ffiniau aneddiadau neu ardaloedd i’w gwarchod
- Gosod polisïau rheoli datblygu manwl
- Asesu Safleoedd Posibl



# Beth yw'r prif faterion?



# Beth yw'r weledigaeth?

**Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, bydd y strategaeth ddatblygu wedi:**

- Mynd i'r afael â'r heriau economaidd a chymdeithasol a godwyd o ganlyniad i Covid-19, Brexit a newidiadau mewn patrymau cyflogaeth a manwerthu
- Wedi hwyluso nifer cynyddol o swyddi a thwf economaidd
- Manteisio ar y cryfderau presennol mewn gweithgynhyrchu a'r economi sylfaenol (nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)
- Creu canol trefi bywiog gyda defnyddiau amrywiol
- Helpu i ymgorffori seilwaith 'glas' (elfennau dŵr) a 'gwyrdd' (nodweddion naturiol a lled-naturiol) yn y datblygiad
- Mynd i'r afael â'r argyfwng tai trwy ddarparu tai forddiadwy a thai marchnad, datblygu ystod a dewis eang o dai a sicrhau bod pob trigolyn yn cael mynediad i gartref o ansawdd da yn y lleoliadau cywir
- Wedi'i adeiladu ar gymeriad amrywiol ac unigryw trefi a phentrefi'r Fwrdeistref Sirol, ar ôl gosod egwyddorion creu lleoedd wrth wraidd y dylunio ac annog cyfoeth diwylliannol ac amrywiaeth.
- Gwella'r rhwydwaith strategol o gyfleusterau adloniant, hamdden, addysg a chymuned, cryfhau cymunedau a meithrin ansawdd bywyd gwell i bawb

# Faint o dwf?

Poblogaeth gyffredinol i gynyddu tua 10,700 (gan gynnwys 4,100 o bobl o oedran gweithio)

6,750 o anheddau (gan gynnwys o leiaf 1,360 o anheddau fforddiadwy)

44.5 hectar o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth



# Ble bydd y twf yn digwydd?

- Mae gan y Strategaeth a Ffefrir dair prif ran:
  - Ffocws Buddsoddi mewn Metro De Cymru
  - Canol Tref(i) yn Gyntaf
  - Safle Strategol Allweddol
- Bydd twf a datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at Brif Ganol Trefi a Chanol Trefi Lleol (gweler yr hierarchaeth aneddiadau isod), y mae gan bron bob un ohonynt orsafoedd trenau neu fysiau mawr.
- Yn ystod cyfnod y cynllun, bydd 1,200 o anheddau yn cael eu hadeiladu ar safle strategol, Parc Gwernau, Maes-y-cwmwr. Ar ôl cyfnod y cynllun, bydd 1,500 o anheddau pellach yn cael eu hadeiladu arno.

## Yr Hierarchaeth Aneddiadau;

**Prif Ganol Trefi**

- Bargod
- Coed Duon
- Ystrad Mynach
- Rhisga/Pont-y-meistr
- Caerffili

**Canol Trefi Lleol**

- Rhymni
- Nelson
- Trecelyn
- Bedwas

**Aneddiadau Preswyl**

- Pob anheddiad arall o fewn ffiniau aneddiadau diffiniedig.

**Aneddiadau Gwledig**

- Pob anheddiad arall y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig.

# Polisïau Strategol

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi polisïau strategol sy'n ymdrin â materion megis:





- Lefel Twf
- Yr Hierarchaeth Aneddiadau
- Meysydd Twf
- Safleoedd Strategol
- Newid Hinsawdd
- Ynni adnewyddadwy
- Creu Lleoedd
- Seilwaith Gwyrdd a Glas
- Cyflogaeth
- Twristiaeth
- Tai
- Trafnidiaeth
- Manwerthu
- Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy
- Mwynau











# Ymgynghori

- Mae modd i bobl gyflwyno eu sylwadau i'r Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos.
- Cafodd y Strategaeth a Ffefrir hon ei chyhoeddi yn ffurfiol ar gyfer sylwadau ar 19 Hydref 2022, a bydd y cyfnod ymgynghori yn cau am hanner nos ar 30 Tachwedd 2022. Rhaid cyflwyno sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir a dogfennau ategol i'r Cyngor erbyn y dyddiad cau. Ni fydd sylwadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu derbyn, ac ni fyddan nhw'n cael eu hystyried.
- Mae'r Strategaeth a Ffefrir a'i dogfennau ategol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor, ac mae copïau o'r Strategaeth a Ffefrir wedi'u gosod ym mhob un o'r llyfrgelloedd ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Mae modd gwneud sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir trwy wefan y Cyngor, drwy e-bost i flwch post y Cynllun Datblygu Lleol; cynllundatblygulleol@caerffili.gov.uk, neu drwy lythyr at: Cynllunio Strategol, Tŷ Tredomen, Parc Tredomen, Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7WF.



# Y Camau Nesaf

- Ceisio cymeradwyaeth o'r Strategaeth a Ffefrir erbyn diwedd 2022
- Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cwblhau'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd a'i roi ar adnau (bydd dyraniadau safle dros dro yn cael eu datgelu ar hyn o bryd)
- Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu statudol o chwe wythnos yn ystod haf 2023
- Cyflwyno Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau i Lywodraeth Cymru
- Archwiliad cyhoeddus (dan arweiniad arolygydd cynllunio) o'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
- Arolygydd i gyhoeddi adroddiad rhwymol
- Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig presennol.



